

**RHAGLEN**

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Cyfarfod y Cyngor - 16eg Tachwedd 2016 - Rhifau Cofnod 70-88

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Tachwedd 2016 - Rhifau Cofnod 34-36

Pwyllgor Cynllunio - 7fed Rhagfyr 2016 - Rhifau Cofnod 37-39

I Gadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 7fed Rhagfyr 2016 - Rhifau Cofnod 68-84

**3. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

**4. CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Ymhellach i Gofnod Rhif 76 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Tachwedd 2016, penodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio tan Gyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor ym mis Mai 2017.

**5. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**6. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**7. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**8. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD**

Ymhellach i Gofnod Rhif 80 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2016, derbyn cyflwyniad cyfrinachol gan Mr Jamie Groves a Mr. Richard Weigh, mewn perthynas â datblygiad arfaethedig ar y promenâd. (Adroddiad cefndir cyfrinachol Clerc y Dref yn amgaeëdig.)

**9. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU YR HEDDLU**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, i ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**10. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.